# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 22 Chwefror 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(47)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 2 – 6 ac 8 – 15. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 7.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Dechreuodd yr eitem am 14:17

Gofynnwyd y 14 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 6 a 10 eu grwpio. Atebwyd cwestiwn 8 gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd.

### 3. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Aflonyddu ar sail Anabledd yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 14.59

**NDM4918 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Aflonyddu ar sail Anabledd yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Rhagfyr 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.52

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4919 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod:

a) yr ymrwymiad a wnaethpwyd gan aelodau'r lluoedd arfog wrth amddiffyn ein gwlad; a

b) yr effaith ddinistriol y gall anhwylder straen wedi trawma ei chael ar fywyd cyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydnabod pa mor annigonol yw'r gwasanaethau presennol i gyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma; a

b) cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r cynnydd a wnaethpwyd o ran gwella gwasanaethau trin anhwylder straen wedi trawma i gyn-aelodau'r lluoedd arfog ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i'r gwasanaethau hyn ym mis Chwefror 2011.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 32 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu is-bwynt 1c newydd: "pwysigrwydd gwasanaethau arbenigol ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma"

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwynt 2a

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 1 | 27 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod mwy o achosion o anhwylder straen wedi trawma ymysg cyn-bersonél y lluoedd arfog ac yn mynegi pryder ar ôl deng mlynedd o weithredu milwrol yn Affganistan a chwe blynedd o weithredu milwrol yn Irac bod nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma yn debyg o godi yn y dyfodol ac yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau mwy o gefnogaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4919 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod:

a) yr ymrwymiad a wnaethpwyd gan aelodau'r lluoedd arfog wrth amddiffyn ein gwlad;

b) yr effaith ddinistriol y gall anhwylder straen wedi trawma ei chael ar fywyd cyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd; ac

c) pwysigrwydd gwasanaethau arbenigol ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r cynnydd a wnaethpwyd o ran gwella gwasanaethau trin anhwylder straen wedi trawma i gyn-aelodau'r lluoedd arfog ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i'r gwasanaethau hyn ym mis Chwefror 2011.

3. Yn nodi bod mwy o achosion o anhwylder straen wedi trawma ymysg cyn-bersonél y lluoedd arfog ac yn mynegi pryder ar ôl deng mlynedd o weithredu milwrol yn Affganistan a chwe blynedd o weithredu milwrol yn Irac bod nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma yn debyg o godi yn y dyfodol ac yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau mwy o gefnogaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma yn y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 13 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16:50.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4920 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) adroddiad "All Wales Ethnic Minority Association - AWEMA" yn 2002;

b) adroddiad "All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): Review and Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects" yn 2004;

c) bod cadeirydd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn 2007 yn mynegi pryderon difrifol am drefn lywodraethu'r mudiad; a

d) adroddiad "A Review of the Effectiveness of Governance and Financial Management within the All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA)" yn 2012; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi datganiad yn amlinellu'n fanwl ei rhesymau dros barhau i gyllido AWEMA er bod pryderon cychwynnol wedi'u mynegi yn 2002, 2004 a 2007; a

b) datblygu a chyhoeddi protocol er mwyn sicrhau y caiff pryderon tebyg eu trin yn effeithiol yn y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 52 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

"1. Yn nodi methiant Gweinidogion i fynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon a godwyd gan:

a) adroddiad 2002 "All Wales Ethnic Minority Association - AWEMA";

b) adroddiad 2004 "All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): Review and Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects";

c) Cadeirydd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) a ysgrifennodd at Lywodraeth Cymru yn 2007 i fynegi pryderon difrifol am drefn lywodraethu'r sefydliad; a

2. Yn nodi ymhellach adroddiad 2012 "A Review of the Effectiveness of Governance and Financial Management within the All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA); ac

ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oedd amseru cyhoeddi adroddiad 2012:

a) wedi rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad allu craffu arno ar unwaith mewn Cyfarfod Llawn; a

b) wedi rhoi cyfle i'r Gweinidog sy'n gyfrifol roi datganiad llafar brys.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i gyhoeddi adroddiadau 2002 a 2004 ar-lein.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4920 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) adroddiad "All Wales Ethnic Minority Association - AWEMA" yn 2002;

b) adroddiad “All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): Review and Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects” yn 2004;

c) bod cadeirydd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn 2007 yn mynegi pryderon difrifol am drefn lywodraethu’r mudiad; a

d) adroddiad “A Review of the Effectiveness of Governance and Financial Management within the All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA)” yn 2012; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi datganiad yn amlinellu’n fanwl ei rhesymau dros barhau i gyllido AWEMA er bod pryderon cychwynnol wedi’u mynegi yn 2002, 2004 a 2007; a

b) datblygu a chyhoeddi protocol er mwyn sicrhau y caiff pryderon tebyg eu trin yn effeithiol yn y dyfodol.

3. Yn galw ar y Gweinidog i gyhoeddi adroddiadau 2002 a 2004 ar-lein.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig wedi’i ddiwygio. Felly, gwrthodwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**CYFNOD PLEIDLEISIO**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.48

**Crynodeb o Bleidleisiau**
**6. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.51

**NDM4917 Nick Ramsay (Mynwy):**

Dŵr - Adfywiad Adnodd.

O gamlesi i’r arfordir, o ynni gwyrdd i gronfeydd dŵr - bydd y Ddadl Fer yn tynnu sylw at rôl bwysig Dŵr ym mywyd Cymru a sut y gallwn ei reoli’n well.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:14

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2012**